# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 16 Mai 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 138

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i sefydlu Pwyllgor Senedd

(5 munud)

**NDM8260** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1.Yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

a) Yn sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig ar gyfer Cymru ar Ymchwiliad Covid-19 gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

i) Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiadau yn y camau unigol o Ymchwiliad Covid-19 y DU ac yng nghyd-destun cylch gorchwyl ac amserlen Ymchwiliad Covid-19 y DU, cynnig i'r Senedd, drwy gynnig, unrhyw fylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19 y dylid eu harchwilio ymhellach.

ii) Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, cynnal adolygiad o'r meysydd hynny a nodwyd ar gyfer archwilio pellach.

iii) Cyhoeddi adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

b) Yn cytuno na fydd y Pwyllgor Diben Arbennig yn ailedrych ar gasgliadau ymchwiliadau Pwyllgorau'r Senedd sydd wedi'u cwblhau ac y dylai geisio osgoi dyblygu.

c) Yn cytuno na fydd y Pwyllgor Diben Arbennig wedi'i wahardd rhag ymchwilio i faterion a archwiliwyd yn flaenorol gan Bwyllgorau'r Senedd pan fo gwybodaeth wedi'i diweddaru a budd clir i'w gael o graffu arnynt ymhellach.

2. Yn galw ar y Pwyllgor Busnes i sicrhau y bydd dadl yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau'r Pwyllgor Diben Arbennig o fewn dau fis i'w cyhoeddi.

3. Yn galw ar y Pwyllgor Busnes, wrth iddo gynnig yr aelodau o'r Pwyllgor Diben Arbennig, i gynnig o leiaf chwe aelod, gan gynnwys y Cadeirydd.

**Cyd-gyflwynydd**
Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

## 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Diwygio Etholiadol

(30 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Lleihau Llwyth Gwaith

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adroddiad y Grwp Arbenigol (Cam 1) – GOHIRIWYD

## 7 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

(10 munud)

**NDM8263** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ebrill 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb gan Lywodraeth Cymru

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):

## 8 Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023

**NDM8262** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ebrill 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

**NDM8261** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ebrill 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb gan Lywodraeth Cymru

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

(180 munud)

**Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a dderbyniwyd gan y Senedd ar 9 Mai 2023.**

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Yr Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

48, 49, 50, 39

**2. Statws Cyfartal yr Amcanion**

51

**3. Diffiniadau o amaethyddiaeth a gweithgareddau atodol**

2, 3, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75

**4. Darparu cymorth i ffermwyr**

4, 52, 53, 54, 38, 55

**5. Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

40, 41

**6. Cynlluniau Cymorth Amlflwydd**

42

**7. Ymyrraeth mewn Marchnadoedd Amaethyddol – Costau Mewnbwn**

56, 57, 58, 59, 60, 61, 62

**8. Tenantiaethau Amaethyddol**

63, 5A, 5, 64, 65, 37

**9. Casglu a Rhannu Data**

47

**10. Coedwigaeth**

7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34

**11. Bywyd gwyllt – defnyddio maglau**

44, 45, 46, 43

**12. Pwerau Gwneud Rheoliadau (Adran 47 a 50)**

35, 36

**13. Teitl Hir**

1

**Dogfennau Ategol**

Bil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod 2

Memorandwm Esboniadol, wedi'i ddiwygio ar ôl Cyfnod 2

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 17 Mai 2023